# Cynllun Cenedl: Cymru

2025-26



CYNNWYS

CYFLWYNIAD

TRI PHILER EIN CYNLLUN

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i'r diwydiant adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

GWEITHIO GYDA'N PARTNERIAID

SUT RYDYM YN MESUR LLWYDDIANT

# Mae 2025-26 yn flwyddyn llawn addewid i'r diwydiant adeiladu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cannoedd o filiynau i gefnogi datblygiad miloedd o gartrefi fforddiadwy newydd.

I gefnogi ei huchelgeisiau, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i gynnal y gyllideb prentisiaethau ar £143.9 miliwn ar gyfer 2025-26, gan gyfateb i ddyraniad y flwyddyn flaenorol ac adlewyrchu ymrwymiad hirdymor i ddatblygu'r gweithlu.

Yn CITB, rydym mewn sefyllfa dda i gefnogi diwydiant adeiladu Cymru yn uniongyrchol i fanteisio ar y cyfleoedd hyn. Mae Cynllun Cenedl Cymru hwn yn amlinellu ein cynlluniau i gefnogi cyflogwyr i recriwtio, hyfforddi a datblygu'r gweithlu sydd ei angen arnynt, nawr ac yn y dyfodol yng Nghymru.

Mae wedi'i ategu gan ein Cynllun Strategol 2025-29 sy'n amlinellu sut y byddwn yn buddsoddi dros £1 biliwn dros gyfnod y Cynllun Strategol i gefnogi'r diwydiant. Ar ben hynny, mae ein Cynllun Busnes 2025-26 yn nodi'r camau ymarferol y byddwn yn eu cymryd, gan gynnwys gweithio gyda Llywodraeth Cymru i esblygu system sgiliau a hyfforddiant Cymru i gefnogi darpariaeth hyfforddiant adeiladu, a pharhad y grant Teithio i Hyfforddi i brentisiaid sydd angen teithio ac aros mewn llety i ffwrdd o gartref wrth hyfforddi.

Byddwn yn canolbwyntio'n llwyr ar gyflawni'r Cynlluniau hyn gyda'r hyder o fod wedi cael ein cefnogi gan y diwydiant, gyda dros ddwy ran o dair o gyflogwyr yn cefnogi ein cynlluniau Lefi 2026-29, a fydd yn cynyddu'r trothwyon Eseptiad a Gostyngiad Lefi.

Hyd yn hyn eleni, rydym eisoes wedi lansio'r Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant (TPN) - un rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant cymeradwy, o ansawdd sicr ledled Cymru, Lloegr a'r Alban - ac rydym wedi ymrwymo i ddyblu maint ein Tîm Cymorth i Newydd-Ddyfodiaid (NEST).



CYNNWYS

CYFLWYNIAD

TRI PHILER EIN CYNLLUN

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i'r diwydiant adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

GWEITHIO GYDA'N PARTNERIAID

SUT RYDYM YN MESUR LLWYDDIANT





Yn ogystal, yn dilyn casgliad Adolygiad yr ITB, a ganfu y dylid cryfhau rôl y ddau ITB, byddwn yn gweithio'n agos gydag ECITB ar feysydd penodol fel seilwaith ledled Prydain Fawr, cynyddu hyfforddwyr, swyddi ynni glân a phasbortio sgiliau. Mae gwaith eisoes ar y gweill i ddatblygu camau gweithredu ar y cyd yn y meysydd hyn.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant a darparwyr hyfforddiant i ddatblygu Fframweithiau Cymhwysedd, gan ddiffinio'r gofynion cymhwysedd craidd ar gyfer unigolion ar draws y diwydiant adeiladu i sicrhau bod y diwydiant yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol. Ar ben hynny, rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu Cynlluniau Sgiliau Sector hefyd i helpu i fynd i'r afael ag anghenion sgiliau penodol sectorau o fewn y diwydiant adeiladu.

Er mwyn cadw i fyny â thargedau'r Llywodraeth, mae angen i ni ehangu'r gweithlu medrus lleol yn y diwydiant adeiladu. Mae'r Cynllun hwn yn darparu manylion dull clir a syml o fynd i'r afael â'r heriau sgiliau sy'n wynebu'r diwydiant yng Nghymru.

Mae tri philer ein Cynllun yn mynd i'r afael â'r system sgiliau, gan ganolbwyntio ar roi'r sylfeini ar waith fel y gall cyflogwyr ac unigolion gael mynediad at yr hyfforddiant cywir, yn y lle cywir ac ar yr amser cywir iddyn nhw.



2 / 2

CYFLWYNIAD

TRI PHILER EIN CYNLLUN

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i'r diwydiant adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

GWEITHIO GYDA'N PARTNERIAID

SUT RYDYM YN MESUR LLWYDDIANT

# Tri philer ein Cynllun

## Mae ein Cynllun Strategol 2025-29, a lansiwyd yn gynharach eleni, yn nodi sut y bydd CITB yn cefnogi cyflogwyr i recriwtio, hyfforddi a chadw'r gweithlu sydd ei angen arnynt, nawr ac yn y dyfodol.

Fe wnaethom ymgysylltu â chyflogwyr adeiladu, darparwyr hyfforddiant a rhanddeiliaid i ffurfio ein Cynllun Strategol, sydd wedi'i lunio o amgylch tri philer. Ein nod yn y pen draw yw darparu gweithlu cymwys a chynhyrchiol i ddileu'r bwlch sgiliau, ac mae'r Cynllun Cenedl hwn i Gymru yn nodi sut y bydd y tri philer yn llywio ein gwaith yng Nghymru ar gyfer 2025-26.

### DATGANIAD YMRWYMIAD I'R IAITH GYMRAEG

Mae Cymru yn wlad ddwyieithog lle mae gwasanaethau ac adnoddau ar gael yn ddwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd Polisi Iaith Gymraeg CITB yn sicrhau y bydd y sefydliad yn gwneud cynnydd cyson tuag at gyflawni ein prif ymrwymiad - na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Byddwn yn sicrhau ein bod yn hyrwyddo ac yn annog defnyddio'r iaith a fydd yn cael effaith gadarnhaol nid yn unig ar ein cyflogwyr a'n rhanddeiliaid yng Nghymru ond ar bobl Cymru gyfan.

### 1 YSBRYDOLI A GALLUOGI POBL AMRYWIOL A MEDRUS I MEWN I'R DIWYDIANT ADEILADU

Bydd ein gwaith yn helpu'r diwydiant i ddenu gweithwyr newydd o gronfa ehangach a mwy amrywiol o dalent.

### 2 DATBLYGU'R SYSTEM HYFFORDDIANT A SGILIAU I DDIWALLU ANGHENION Y PRESENNOL A'R DYFODOL

Mae'r system sgiliau yn hanfodol i allu cyflogwyr a'r diwydiant i hyfforddi. Mae angen iddi esblygu i ddiwallu anghenion presennol a dyfodol y diwydiant adeiladu.

### 3 CEFNOGI'R DIWYDIANT ADEILADU I HYFFORDDI, DATBLYGU A CHADW EI WEITHLU

Ni fydd yr heriau sgiliau yn cael eu datrys gan newydd-ddyfodiaid yn unig - rhaid inni sicrhau ein bod yn cadw mwy o'r gweithlu adeiladu. Trwy gyllid CITB, byddwn yn cefnogi ein cyflogwyr gyda'u hanghenion datblygu gweithlu a fydd yn uwchsgilio ein gweithlu presennol, yn cynyddu enillion cynhyrchiant y gweithlu presennol i'r eithaf, ac yn helpu i gefnogi cadwraeth o fewn y diwydiant.

CYNNWYS

CYFLWYNIAD

TRI PHILER EIN CYNLLUN

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i'r diwydiant adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

GWEITHIO GYDA'N PARTNERIAID

SUT RYDYM YN MESUR LLWYDDIANT

PHILER UN

# Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i'r diwydiant adeiladu

Mae angen cyflenwad cryf o dalent ar y diwydiant adeiladu. Bydd ein hymrwymiadau'n helpu i waredu rhwystrau ac ysbrydoli'r dalent orau.



CYNNWYS

CYFLWYNIAD

TRI PHILER EIN CYNLLUN

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i'r diwydiant adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

GWEITHIO GYDA'N PARTNERIAID

SUT RYDYM YN MESUR LLWYDDIANT

# Yng Nghymru, byddwn yn:

- Parhau i ddarparu gwybodaeth ddigidol hunanwasanaeth am ddim ar gyfer gyrfaoedd trwy ein gwefan ddwyieithog Am Adeiladu a Gyrfaoedd Am Adeiladu, ein dyluniad platfform ar-lein newydd i gysylltu cyflogwyr adeiladu â'r genhedlaeth nesaf o weithwyr medrus
- Rhoi cyfle i dros 800 o ddysgwyr amser llawn ddysgu am sut mae adeiladu'n gweithio'n ymarferol trwy ein digwyddiadau mewnwelediad i'r diwydiant a ddarperir gan bartneriaid, gan gynnwys Open Doors, Gweld Eich Safle, Wythnos Prentisiaethau Genedlaethol a digwyddiadau merched mewn adeiladu
- Parhau i ddarparu ymyriadau NEST i gefnogi dros 300 o gyflogwyr i recriwtio prentisiaid a dechreuwyr newydd eraill trwy gynorthwyo gyda'u holl ofynion recriwtio, gan gynnwys cael mynediad at grantiau a sicrhau darpariaeth addas o hyfforddiant
- Gwella'r rhaglen Llysgenhadon STEM Am Adeiladu trwy ddatblygu deunyddiau i ymgysylltu â phobl ifanc a gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid rhwydwaith lleol a rhanddeiliaid yng Nghymru i wella cyrhaeddiad ac effeithiolrwydd hyrwyddo gyrfaoedd adeiladu yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Hwyluso a chefnogi Wythnos Prentisiaethau Genedlaethol, gan gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, Medr, colegau addysg bellach, cyflogwyr, a rhanddeiliaid ehangach i hyrwyddo adeiladu fel gyrfa o ddewis
- Hyrwyddo a hwyluso pedwar digwyddiad merched mewn adeiladu ledled Cymru, gan gynnwys digwyddiad iaith Gymraeg
- Parhau i hyrwyddo a chefnogi'r cystadlaethau SkillBuild yng Nghymru
- Hwyluso ein Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol ar gyfer rhannu arferion gorau wrth gyflawni allbynnau gwerth cymdeithasol
- Parhau i ariannu a chefnogi ein tri Hwb Profiad ar y Safle yng Nghymru i ddarparu profiad gwaith ymarferol a chyfleoedd porth i oedolion sy'n edrych i gael cyflogaeth yn y diwydiant adeiladu
- Parhau i gefnogi datblygiad a gweithrediad strategaeth ymgysylltu genedlaethol CITB, gyda chefnogaeth timau ymgysylltu lleol i annog a chefnogi cyn-droseddwyr, y rhai sy'n gadael y gwasanaeth milwrol a phobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETs) i ddilyn gyrfa yn y diwydiant adeiladu.



CYNNWYS

CYFLWYNIAD
TRI PHILER EIN CYNLLUN
Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i'r diwydiant adeiladu
Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol
Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu
GWEITHIO GYDA'N PARTNERIAID
SUT RYDYM YN MESUR LLWYDDIANT

PHILER DAU

# Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol.

Nid yw'r system sgiliau bresennol yn gweithio mor effeithiol ag y gallai ar gyfer y diwydiant adeiladu. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraethau cenedlaethol i sicrhau bod sgiliau adeiladu yn cael blaenoriaeth mewn polisïau a mentrau newydd.



CYFLWYNIAD

TRI PHILER EIN CYNLLUN

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i'r diwydiant adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

GWEITHIO GYDA'N PARTNERIAID

SUT RYDYM YN MESUR LLWYDDIANT

# Yng Nghymru, byddwn yn:

- Sicrhau bod yr holl Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, safonau cyfnod byr, NVQs a Phrentisiaethau yng Nghymru yn gyfredol ac yn addas at y diben. Byddwn yn ymgysylltu â Medr i sicrhau bod y gwaith hwn wedi'i alinio, lle bo modd, â datblygu Fframweithiau Cymhwysedd

- Parhau i weithio gyda'r diwydiant i gytuno ar un diffiniad o gymhwysedd, sy'n eiddo i'r diwydiant, ar gyfer pob rôl adeiladu, a'i ddiweddaru'n barhaus, gyda Llwybrau i Gymhwysedd a sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiad sy'n galluogi datblygiad hyblyg o sgiliau a galluoedd ac yn cefnogi cyflogwyr/unigolion i nodi cyfleoedd dilyniant a gofynion cymhwysedd penodol i'r rôl

- Parhau i weithio'n agos gyda Medr, Cymwysterau Cymru, colegau, darparwyr hyfforddiant, a chyflogwyr yn archwilio newidiadau posibl i gymwysterau prentisiaeth gyda'r nod o wella dechreuadau, cadw a chanlyniadau o'r rhaglen

- Cefnogi adolygiad Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ac elfennau hanfodol diogelwch drwy gyfranogiad a mewnbwn cyflogwyr

- Monitro ac adolygu gweithrediad y cymhwyster digidol yn y Fframwaith Prentisiaeth o ran ei briodoldeb, ei effeithiolrwydd a'i effaith

- Monitro ac adolygu effaith y cynllun peilot i integreiddio sgiliau hanfodol yn y Fframwaith Prentisiaeth

- Adolygu nifer y diwydiant sy'n manteisio ar hyfforddiant a chymwysterau digidol o ran ei effeithiolrwydd a'i effaith

- Datblygu Fframweithiau Prentisiaeth Lefel 4 a Lefel 5 newydd ar gyfer peirianneg sifil a thirfesur

- Parhau i weithio gyda darparwyr hyfforddiant a cholegau addysg bellach ar ddatblygu darpariaeth newydd nad oedd ar gael yng Nghymru o'r blaen, megis gwaith ffurfwaith, atgyfnerthu dur, a galwedigaethau concrit, i ddiwallu anghenion presennol a rhai'r dyfodol.



CYNNWYS

CYFLWYNIAD

TRI PHILER EIN CYNLLUN

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i'r diwydiant adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

GWEITHIO GYDA'N PARTNERIAID

SUT RYDYM YN MESUR LLWYDDIANT

PHILER TRI

# Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi a datblygu ei weithlu

Ni fydd yr heriau sgiliau yn cael eu datrys gan newydd-ddyfodiaid yn unig - rhaid inni sicrhau ein bod yn cadw mwy o'r gweithlu adeiladu.



CYFLWYNIAD

TRI PHILER EIN CYNLLUN

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i'r diwydiant adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

GWEITHIO GYDA'N PARTNERIAID

SUT RYDYM YN MESUR LLWYDDIANT

# Yng Nghymru, byddwn yn:

- Hyrwyddo'r TPN a lansiwyd yn ddiweddar a fydd yn darparu hyfforddiant hawdd ei gyrchu sy'n ymatebol i anghenion y diwydiant trwy ddarparwyr o ansawdd sicr
- Trwy Bwyllgor Pobl a Sgiliau Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladu, nodi anghenion sgiliau sy'n dod i'r amlwg a chreu atebion hyfforddi, y gellir eu cyflwyno trwy'r TPN
- Datblygu llwybrau ychwanegol, yn seiliedig ar Fframweithiau Cymhwysedd, i gynnig opsiynau hyblyg ac wedi'u hariannu i gyflogwyr sy'n edrych i uwchsgilio eu gweithlu, a mapio'r holl ddarpariaeth hyfforddiant adeiladu ledled Prydain Fawr, gan dargedu buddsoddiad i gefnogi bylchau a meysydd twf
- Sicrhau bod ein tri Rhwydwaith Cyflogwyr Cymru yn darparu dros £1 miliwn o hyfforddiant wedi'i ariannu wrth y ffynhonnell sy'n diwallu anghenion sgiliau diwydiant lleol
- Parhau i weithio gyda'r diwydiant ar weithredu ein Cynlluniau Sgiliau Sector gyda nod penodol o ddod â darpariaeth hyfforddiant sifil beilot newydd i Gymru
- Ail-gydbwyso cymhellion grant a chyllid i annog cyflogwyr i uwchsgilio eu gweithlu i gymhwysedd a datblygu cofrestr hyfforddi, gan ddal cofnodion manwl o gyflawniadau cymhwysedd a hyfforddiant unigolion
- Parhau i hyrwyddo a chyflwyno ein Safon Mentora newydd ar gyfer cyflogwyr sy'n cyflogi prentis
- Annog cyflogwyr i ddatblygu atebion hyfforddi arloesol a gwneud cais am gymorth drwy ein Cronfa Effaith ar Ddiwydiant
- Bydd ein Cynghorwyr CITB yn parhau i gefnogi cwmnïau drwy sgyrsiau hyfforddiant a sgiliau, yn ogystal â darparu cymorth grant a chyllid.



CYNNWYS

CYFLWYNIAD

TRI PHILER EIN CYNLLUN

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i'r diwydiant adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

GWEITHIO GYDA'N PARTNERIAID

SUT RYDYM YN MESUR LLWYDDIANT



# Gweithio gyda'n partneriaid

Mae cydweithio a phartneriaeth yn hanfodol i fynd i'r afael â'r heriau sgiliau sy'n wynebu'r diwydiant adeiladu. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid yng Nghymru.

## CYFLOGWYR

Byddwn yn parhau i weithio gyda chyflogwyr ledled Cymru i annog a chefnogi'r defnydd o sgiliau a hyfforddiant. Ochr yn ochr â'r mentrau a gynlluniwyd ar gyfer eleni, bydd cyflogwyr yn gallu cael mynediad at CITB yn y ffyrdd canlynol:

### TÎM YMGYSYLLTU Â CHWSMERIAID

Mae ein tîm o gynghorwyr ar gael i'n holl gwsmeriaid i'w helpu gyda'r pethau mawr sy'n bwysig a'r pethau bach sy'n gwneud gwahaniaeth. Gall Cynghorwyr CITB ddarparu cyngor, canllawiau a chefnogaeth ar gyfer cael mynediad at hyfforddiant, grantiau, cyllid a phrentisiaethau CITB. Gallant gyfeirio at ffynonellau eraill o gefnogaeth, cymorth a chyngor, gan gynnwys partneriaid a rhwydweithiau lleol, er enghraifft, Gyrfa Cymru, Busnes Cymru, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSPs), hybiau, Grwpiau Hyfforddi, colegau a mentrau lleol eraill.

### NEST

Nawr yn ei ail flwyddyn o weithredu, mae NEST yng Nghymru yn cefnogi cyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig (SMEs), a busnesau sydd wedi cofrestru ar gyfer y Lefi sydd wedi'u datgysylltu i gael mynediad at gyllid ar gyfer ymgeiswyr newydd. Maent yn darparu cefnogaeth gynhwysfawr ar gyfer prentisiaethau i gyflogwyr a gallant helpu i ddod o hyd i ymgeisydd, cael mynediad at gyllid a dod o hyd i ddarparwr hyfforddiant addas.





CYFLWYNIAD

TRI PHILER EIN CYNLLUN

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i'r diwydiant adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

GWEITHIO GYDA'N PARTNERIAID

SUT RYDYM YN MESUR LLWYDDIANT

## GRANTIAU A CHYLLID

Mae CITB yn darparu grantiau a chyllid i gyflogwyr yn y diwydiant adeiladu sy'n darparu hyfforddiant i'w gweithlu. Yn ogystal â'n Cynllun Grantiau ar gyfer hyfforddiant, rydym hefyd yn darparu cefnogaeth ariannol ar gyfer prosiectau a hyfforddiant penodol i'r diwydiant, gan gynnwys trwy ein cefnogaeth flaenllaw trwy Rwydweithiau Cyflogwyr, Cronfa Effaith ar Ddiwydiant, a Chronfa Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer busnesau mawr - gan ei gwneud hi'n haws i fwy o gyflogwyr gael mynediad at hyfforddiant pryd a lle mae ei angen arnynt.

## CYNGHORAU'R GWLEDYDD

Mae ein Cyngor Cenedl yn un ffordd yr ydym yn cydweithio ac yn ymgynghori â'r diwydiant i'n helpu i sicrhau bod ein gwaith yn diwallu anghenion cyflogwyr yng Nghymru.

Mae ein Cynlluniau Cenedl blynyddol yn ategu ein Cynllun Busnes Prydain Fawr. Cefnogir y Cynlluniau hyn gan ein Cynghorau'r Gwledydd ac maent yn cynnwys ymyriadau a phrosiectau penodol ar gyfer pob cenedl yn unol â'n tair blaenoriaeth. Mae prosiectau penodol yn parhau i gael eu targedu ar lefel genedlaethol, lle bo'n briodol, i ymateb i wahanol anghenion a heriau.

## SEFYDLIADAU A FFEDERASIYNAU RHAGNODEDIG

Mae ein partneriaethau gwaith cryf a chadarnhaol gyda Sefydliadau a Ffederasiynau Rhagnodedig yn allweddol i gyflawni ein Cynllun, a byddant yn parhau i chwarae rhan bwysig yn natblygiad ac adolygiad safonau.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Sefydliadau Rhagnodedig gan ganolbwyntio gwaith cydweithredol ar y meysydd blaenoriaeth canlynol:

- **Prentisiaethau a newydd-ddyfodiaid**
- **Sgiliau arbenigol**
- **Gwella cyfathrebu ac ymgysylltu'n barhaus â chyflogwyr cofrestredig â'r Lefi**
- **Rhwydweithiau Cyflogwyr a'r TPN**
- **Sero net.**

## MEDR A LLYWODRAETH CYMRU

Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith gyda Llywodraeth Cymru, Medr a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSPs) i sicrhau bod heriau Sgiliau Diwydiant yn cael eu deall a'u hymgorffori mewn strategaethau sgiliau a bod cyllid ar gael yn ôl yr angen.



CYNNWYS

CYFLWYNIAD

TRI PHILER EIN CYNLLUN

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i'r diwydiant adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

GWEITHIO GYDA'N PARTNERIAID

SUT RYDYM YN MESUR LLWYDDIANT



# Symleiddio sut rydym yn mesur llwyddiant

Byddwn yn mesur ein perfformiad wrth gyflawni'r Cynllun hwn yn erbyn tri mesur canlyniad allweddol sy'n cyd-fynd â'n pwrpas. Byddant hefyd yn cael eu defnyddio i fesur ein cynnydd yn erbyn yr uchelgeisiau a nodir yn ein Cynllun Strategol.

Bydd y system fesur hon yn darparu'r gallu i olrhain cynnydd yn erbyn ein gweledigaeth a'n pwrpas a bydd yn nodi lle mae angen i ni addasu ein cynlluniau i wella ein perfformiad i gyflawni ar gyfer y diwydiant adeiladu.

**Mae ein mesurau hefyd wedi'u halinio â blaenoriaethau'r diwydiant sef:**

1

Cael mwy o bobl hyfforddedig i'r diwydiant (sef prif flaenoriaeth CITB)

2

Sicrhau bod hyfforddiant perthnasol o ansawdd da ar gael ar yr amser a'r lle iawn

3

Gwella sgiliau'r rhai sydd eisoes yn y gweithlu.

**5%** cynnydd yn nifer y newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant.

**6%** cynnydd yn nifer y cyflogwyr a gefnogir i hyfforddi ac uwchsgilio eu gweithlu.

**2%** cynnydd yn nifer yr unigolion a gefnogir i hyfforddi ac uwchsgilio.

Mae'r mesurau hyn wedi'u hategu gan reoli perfformiad cadarn a fframwaith mesur effaith mwy manwl.

Gallwch ddarllen mwy am ein mesurau drwy ymweld â'n Cynllun Busnes.